



20 Tachwedd 2024

Annwyl Aelodau'r Senedd,

Ymrwymais yn y Cyfarfod Llawn i ysgrifennu atoch gyda manylion Cynllun Lesio Cymru.

Lansiwyd Cynllun Lesio Cymru ym mis Ionawr 2022. Mae'r cynllun yn golygu bod awdurdodau lleol yn lesio ac yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli eiddo preifat dros gyfnod o rhwng pump ac ugain mlynedd.

Ar hyn o bryd mae 19 o Awdurdodau Lleol wedi cofrestru ar gyfer y cynllun gyda disgwyl i ddau awdurdod lleol arall ymuno yn gynnar yn 2025.

Mae'r cynllun yn tynnu sylw at werth y Sector Rhentu Preifat wrth ddarparu tai hygrych o ansawdd da a'r cyfraniad y gall y Sector ei wneud wrth helpu i fynd i'r afael â digartrefedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynllun i ddarparu:

- Llety diogel o ansawdd da
- Les o rhwng 5 ac 20 mlynedd
- Taliadau rhent wedi'u gwarantu am hyd y les, ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol perthnasol.
- Grantiau ar gyfer perchnogion eiddo o hyd at £5,000 i £25,000.
- Atgyweirio unrhyw ddifrod i'r eiddo a wnaed gan denantiaid
- Gwarant o gefnogaeth briodol i denantiaid, drwy gydol y les.
- Nid oes unrhyw ffioedd rheoli yn cael eu talu gan y landlord neu berchennog eiddo.

Mae bron i 300 o dai wedi cofrestru hyd yn hyn, gyda 60% o eiddo wedi bod yn wag am fwy na 6 mis.

Mae ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol wedi lansio yn ddiweddar i wneud landlordiaid a pherchnogion eiddo yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y cynllun i'w gynnig. Ym mis Hydref cafodd cynnwys y cyfryngau cymdeithasol ei weld dros hanner miliwn o weithiau, ac mae awdurdodau lleol yn nodi cynnydd sylweddol mewn ymholiadau am y cynllun. Mae dolen i rai o'r deunydd cyhoeddusrwydd a ddefnyddir isod.

[Cynllun Lesio Cymru](#)

[Cynllun Lesio Cymru | LLYW. CYMRU](#)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio y gallwch hyrwyddo'r cynllun i'ch etholwyr a allai fod â diddordeb gwybod mwy.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jayne Bryant". The signature is written in a cursive, flowing style.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government